# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 13/02/2026 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 19/02/2026 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 26/02/2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Aelod Cabinet: Cyng Craig ab Iago – Aelod Cabinet Amgylchedd

**PWNC** - **Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru – Ymateb i'r cyfnod Hysbysiad Cyhoeddus**

**PENDERFYNIAD**

Cyflwyno gwrthwynebiad Cyngor Gwynedd i'r cyfnod hysbysiad cyhoeddus gorchymyn Parc Cenedlaethol Glyndŵr (dynodi) 2026 am y rhesymau isod (Llythyr ymateb wediei gynnwys fel atodiad i'r daflen hwn).

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Craig ab Iago – Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gareth Jones - Pennaeth Adran Cynorthwyol |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 13.02.2026 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :** Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru – Ymateb i'r cyfnod Hysbysiad Cyhoeddus

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cyflwyno gwrthwynebiad Cyngor Gwynedd i'r cyfnod hysbysiad cyhoeddus gorchymyn Parc Cenedlaethol Glyndŵr (dynodi) 2026 am y rhesymau isod (Llythyr ymateb wedi ei gynnwys fel atodiad i'r daflen hwn):

<u>Iaith Gymraeg</u>

Mae'r ardal arfaethedig i'w chynnwys yn y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru yn cynnwys rhannau o Wynedd sy'n cael eu cydnabod fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, lle mae'n cael ei defnyddio yn ddyddiol. Gallai ymgorffori'r cymunedau hyn mewn Awdurdod Cynllunio Lleol newydd sy'n cynnwys sawl awdurdod unedol - llawer ohonynt â lefelau is o ddefnydd y Gymraeg - beryglu gwanhau'r ffocws ar ystyriaethau Cymraeg mewn cynllunio a pholisi. Gallai hyn gael effaith negyddol ar statws yr iaith a'r defnydd bob dydd mewn ardal lle mae'n ffynnu ar hyn o bryd.

Er bod asesiad ar effaith yr iaith Gymraeg wedi ei gynnal nid yw'r Cyngor o'r farn bod modd lliniaru'r effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal arfaethedig sy'n disgyn o fewn ACLl Gwynedd. Nis oes tystiolaeth cadarn wedi ei gyflwyno i gefnogi'r datganiadau sydd yn cael ei wneud am yr Iaith Gymraeg yn yr asesiad effaith iaith.

<u>Cynllunio</u>

Yr unig sicrwydd sydd gennym ydy bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn Awdurdod Cynllunio Lleol.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pa fath o wasanaeth cynllunio fydd yn gweithredu yn y parc cenedlaethol newydd, felly nid ydym yn gallu bod yn sicr na fydd effaith negyddol ar y gwasanaethau cynllunio presennol.

O ran y CDLl, mae'n anghywir i CNC datgan yn ei hymateb i'r pryderon â godwyd eisoes gan Cyngor Gwynedd yn ei :

"...ystyried bod y risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol o gefnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol, neu sy'n cael eu datblygu, yn isel yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd eisoes yn AHNE, ac felly mae'n annhebygol y bydd yn rhan bwysig o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol"

Yr arweiniad a gawsom gan Is adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yw na ddylai unrhyw CDLl gynnwys rhannau o Awdurdod Cynllunio Lleol gwahanol.

Gall y ddisgwyl am y penderfyniad o ddynodi'r parc cenedlaethol newydd neu beidio cael effaith ar amserlen CDLl Gwynedd.

<u>Cyllideb</u>

Roedd Cyngor Gwynedd yn falch o dderbyn y llythyr gan y Dirprwy Gweinidog 21 Awst 2025 oedd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Parc Cenedlaethol newydd a goblygiadau hyn, fodd bynnag nid yw'n darparu sicrwydd.

Mae CNC yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd na fydd Awdurdodau Lleol dan anfantais ariannol ond chan nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y parc cenedlaethol newydd, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch o ble mae'r cyllid hwn yn dod.

<u>Llywodraethu</u>

Nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei Lywodraethu. Mae angen manylion ynglŷn ag os bydd y Cyngor yn cael ei chynrychioli neu yn cyfrannu ar yr Awdurdod?

Gan nad oes arweiniad cadarn wedi cael ei ddarparu ar y mater yma, er ei fod yn fater sydd wedi cael ei godi sawl gwaith gan y Cyngor, mae hwn dal i barhau i fod yn fater sydd yn ein pryderu.

<u>Yr Ardal Ymgeisiol</u>

Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon â'r rheswm a roddwyd gan CNC am gynnwys rhan o Wynedd yn y Parc Cenedlaethol newydd.

Nodwyd fod yr ardal o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr ei nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys yn Y Berwyn ac nid i'w gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid yw'n glir beth sydd wedi newid yn y tirwedd sydd yn golygu ei fod yn addas i'w gynnwys yn y parc cenedlaethol newydd.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Er fod y Cyngor wedi cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2025 yn gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd, er mwyn gwrthwynebu yn ffurfiol i'r cynnig, mae'n ofynnol cyflwyno ymateb yn datgan hynny i'r hysbysiad cyhoeddus yn ogystal.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae Cabinet Cyngor Gwynedd eisoes wedi penderfynu i wrthwynebu'r gorchymyn dynodi drafft a'r ffin arfaethedig parc cenedlaethol Glyndŵr.( Adroddiad Cabinet Parc Cenedlaethol Newydd.pdf) Cyflwynwyd ymateb y Cyngor fel adroddwyd i gyfarfod o'r Cabinet ym mis Tachwedd 2025 i Gyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'r drefn. Serch hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan ers hynny fod angen i Awdurdodau Lleol all gael eu heffeithio gan y dynodiad newydd gadarnhau eu gwrthwynebiad yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hysbysu 16 Ionawr 2026 i 15 Chwefror 2026. (Cyfnod Hysbysu 2026 - Natural Resources Wales Citizen Space - Citizen Space

## 1. Cefndir

1.1 Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021-2026), nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (a elwid gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu 'AHNE'). Yna comisiynwyd Cyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru, fel y corff statudol ar faterion tirwedd, i werthuso'r achos am y parc cenedlaethol newydd arfaethedig. Cynhelir yr asesiad o fewn tymor presennol y Senedd (2021-2026).

1.2 Yn dilyn camau statudol blaenorol sydd wedi eu gosod allan isod ac adolygiad o'r dystiolaeth a'r canfyddiadau o'r ymgynghoriad statudol 2025, mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cytuno i baratoi Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr (Atodiad 1). Mae hysbyseb cyhoeddus wedi ei baratoi ac mae hyn yn rhoi'r cyfle i wrthwynebu'n ffurfiol i'r cynnig. Yn dilyn y cyfnod hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach y cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd ar ôl derbyn gwybodaeth a thystiolaeth, gan gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad. Llywodraeth Cymru fydd wedyn yn penderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r gorchymyn dynodi. Os caiff ei gadarnhau, byddai pedwerydd parc cenedlaethol yng Nghymru yn cael ei greu. Dyma fyddai'r parc newydd cyntaf ers 1957, a'r cyntaf erioed i gael ei greu yn gyfan gwbl yng Nghymru a chan Gymru.

1.3 Ardal fach o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn y ffin arfaethedig (ychydig dros 11 km2 a llai na 2% o gyfanswm yr arwynebedd). Llandderfel yw'r unig anheddiad sydd tu mewn i'r ffin. Yn ôl gwybodaeth Cofrestr Tir ac Eiddo'r Cyngor mae 220 cyfeiriad yn yr ardal hefo 185 uned preswyl ac 15 uned masnachol/busnes. Yn ôl Cyfrifiad 2021 mae maint cyfartalog aelwydydd yn yr ardal yma yn 2.4 felly amcangyfrif poblogaeth sydd yn byw yn yr ardal yma ydy 528.

## 2. Ymgynghoriadau Blaenorol

.2.1 Yn 2023, cynhaliodd CNC cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023 ar fap cychwynnol, y cyfeirir ato fel 'Map Ardal Chwilio'.

.2.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024 ar ffin ddrafft arfaethedig, y cyfeirir ati fel 'Map Ardal Ymgeisiol'.

## 3. Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad anstatudol rhwng mis Hydref a Gorffennaf 2024

.3.1 Er bod yr ymgynghoriadau yn ymwneud hefo ffin arfaethedig y parc newydd, ac er ei fod ond yn effeithio ar ardal fechan o Wynedd yn unig, fe gododd y Cyngor nifer o bryderon/cwestiynau sef:

- Yr effaith ar brisiau tai
- Yr economi wledig
- Yr economi ymwelwyr a thwristiaeth
- Iaith Gymraeg
- Cynllunio (Polisi a Rheoli Datblygu)
- Cyllideb
- Llywodraethu
- Yr ardal ymgeisiol ac yr angen am Barc Cenedlaethol Newydd

.3.2 Er fod ymateb CNC i'r materion a godwyd wedi cyfarch rhai o'r pryderon a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn 2024 roedd pryderon yn parhau gyda pump mater, sef:

- Iaith Gymraeg
- Cynllunio
- Cyllideb
- Llywodraethu
- Yr ardal ymgeisiol

## .4 Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad Statudol 2025

.4.1 Roedd ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad yma yn ymhelaethu ar y pryderon sydd wedi ei osod allan yn 3.2 uchod. Yr ymateb yma cyflwynwyd i cyfarfod o'r Cabinet Tachwedd 2025.

## 5. Ymgynghoriadau a thrafodaethau mewnol

.5.1 Ar 9 Hydref, fe wnaeth swyddogion y Cyngor gyfarfod gyda chynrychiolwyr CNC ynghyd a'r Cynghorydd Elwyn Edwards i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddo fel yr aelod lleol. Fe gododd y pryderon:

- Yr effaith ar yr iaith Gymraeg
- Cyllideb / Gwastraff arian
- Llywodraethu
- Gôr dwristiaid

5.2 Cafodd y Cynghorydd Elwyn Edwards gyfle i gyfrannu at y drafodaeth yng nghyfarfod o'r Cabinet ym mis Tachwedd 2025.

5.3 Penderfyniad y Cabinet oedd i gymeradwyo'r ymateb drafft a gyflwynwyd fel ymateb Cyngor Gwynedd ar yr ymgynghoriad statudol gan ychwanegu gwrthwynebiad i'r gorchymyn dynodi drafft a ffin arfaethedig i Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Ddim yn berthnasol

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Fel sydd wedi ei nodi uchod mae'r ymateb wedi ei thrafod ac wedi cael penderfyniad gan y Cabinet eisoes.

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim gwrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Swyddog Monitro**

Fe noda'r adroddiad yr ymatebion a ddarparwyd i'r ymgynghoriadau ar y bwriad i sefydlu Parc Cenedlaethol newydd. Roedd safbwynt y Cyngor drwy'r Cabinet yn cynnwys gwrthwynebu sefydlu y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Adlewyrchir hyn yn yr adroddiad sydd yn cynnal y safbwynt yma mewn ymateb i'r Gorchymyn Dynodi . Dan ddarpariaethau Atodiad 1 Para 2 o Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 mae'n ofynnol i'r Gweinidog drefnu i gynnal ymchwiliad i'r bwriad os derbynnir gwrthwynebiad na dynnir yn ôl oddi wrth awdurdod lleol . Mae'r hyn a argymhellir yn cynrychioli gwrthwynebiad o'r fath all arwain at ymchwiliad cyhoeddus

**Aelod Lleol**

Rwy'n cytuno gyda'r gwrthwynebiad a'r rhesymau sydd wedi eu hamlinellu. Rwy'n parhau yn bryderus am y sgil-effaith cyllidol o sefydlu Parc newydd yng nghyd-destun fod y Parciau Cenedlaethol cyfredol wedi bod yn cael eu tanariannu'n flynyddol.

Mae gennyf bryder hefyd am effaith Parc Cenedlaethol newydd ar or-dwristiaeth yn ardal Llandderfel ac ar y Gymraeg yn y gymuned leol. Mae canran uchel o dai haf a thai gwyliau yn Llandderfel ar hyn o bryd, ac mae'n ffaith fod prisiau tai yn uwch fyth o fewn y Parciau Cenedlaethol. Mae gennyf bryder am effaith ehangach hyn ar y gymdeithas pe byddai'r Parc newydd yn dod i fodolaeth. Mae diffyg gwybodaeth ac eglurder am y dynodiad hwn a'i effaith posib.

**ATODIADAU**

Atodiad 1 – Llythyr Gwrthwynebiad Cyngor Gwynedd i Barc Cenedlaethol Glyndŵr

Atodiad 2 - Gorchymyn Dynodi Parc Cenedlaethol Glyndŵr

**Aelod Cabinet - Amgylchedd**
**Cabinet Member – Environment**
Cynghorydd / Councillor Craig ab Iago

Gofynnwch am/Ask for: **Cyng. Craig ab Iago**
☎ **07825 661721**
**cynghorydd.craigabiago@gwynedd.llyw.cymru**

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Parc Cenedlaethol Glyndŵr Hysbysiad Statudol
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

13 Chwefror/February 2026

**DRWY E BOST/BY EMAIL:** Parciau.Cenedlaethol@llyw.cymru

Annwyl Swyddog

**Par: Gorchymyn Parc Cenedlaethol Glyndwr [Dynodi] 2026**

Mae Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r gorchymyn dynodi ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd. Mae'r Cyngor wedi codi nifer o bryderon ers cychwyn y daith o greu y Parc Cenedlaethol newydd (gweler isod) ac yn anffodus nid ydym wedi derbyn atebion pendant i'r pryderon/cwestiynau hynny.

Mae ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad statudol ar y Parc Cenedlaethol newydd a'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod yma yn dal i sefyll ac yn sail ar gyfer ein gwrthwynebiad i'r gorchymyn dynodi.
Amlinellir isod gwrthwynebiad Cyngor Gwynedd i'r cyfnod hysbysiad cyhoeddus gorchymyn Parc Cenedlaethol Glyndŵr (dynodi) 2026 am y rhesymau isod:

Iaith Gymraeg

Mae'r ardal arfaethedig i'w chynnwys yn y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru yn cynnwys rhannau o Wynedd sy'n cael eu cydnabod fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, lle mae'n cael ei defnyddio yn ddyddiol. Gallai ymgorffori'r cymunedau hyn mewn Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) newydd sy'n cynnwys sawl awdurdod unedol - llawer ohonynt â lefelau is o ddefnydd y Gymraeg - beryglu gwanhau'r ffocws ar ystyriaethau Cymraeg mewn cynllunio a pholisi. Gallai hyn gael effaith negyddol ar statws yr iaith a'r defnydd bob dydd mewn ardal lle mae'n ffynnu ar hyn o bryd.

Er bod asesiad ar effaith yr iaith Gymraeg wedi ei gynnal nid yw'r Cyngor o'r farn bod modd lliniaru'r effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal arfaethedig sy'n disgyn o fewn ACLl Gwynedd. Nid oes tystiolaeth cadarn wedi ei gyflwyno i gefnogi'r datganiadau sydd yn cael ei wneud am yr Iaith Gymraeg yn yr asesiad effaith iaith.

Cynllunio

Yr unig sicrwydd sydd gennym ydy bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn Awdurdod Cynllunio Lleol.
Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pa fath o wasanaeth cynllunio fydd yn gweithredu yn y parc cenedlaethol newydd, felly nid ydym yn gallu bod yn sicr na fydd effaith negyddol ar y gwasanaethau cynllunio presennol.

O ran y CDLl, mae'n anghywir i CNC datgan yn ei hymateb i'r pryderon â godwyd eisoes gan Cyngor Gwynedd yn ei :

"...ystyried bod y risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol o gefnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol, neu sy'n cael eu datblygu, yn isel yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd eisoes yn AHNE, ac felly mae'n annhebygol y bydd yn rhan bwysig o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol"

Yr arweiniad a gawsom gan Is adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yw na ddylai unrhyw CDLl gynnwys rhannau o Awdurdod Cynllunio Lleol gwahanol. Felly byddai sefydlu Parc newydd yn groes I'r arweiniad hwnnw.

Gall y disgwyl am y penderfyniad o ddynodi'r parc cenedlaethol newydd neu beidio gael effaith ar amserlen paratoi a chyflwyno CDLl Gwynedd.

<u>Cyllideb</u>

Er ein bod yn falch i dderbyn y llythyr gan y Dirprwy Gweinidog 21 Awst 2025 oedd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Parc Cenedlaethol newydd a goblygiadau hyn, fodd bynnag nid yw'n darparu sicrwydd.
Mae CNC yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd na fydd Awdurdodau Lleol dan anfantais ariannol ond chan nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y parc cenedlaethol newydd, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch o ble mae'r cyllid hwn yn dod.

<u>Llywodraethu</u>

Nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei lywodraethu. Mae angen manylion os bydd y Cyngor yn cael ei chynrychioli neu yn cyfrannu ar yr Awdurdod o gwbl.
Gan nad oes arweiniad cadarn wedi cael ei ddarparu ar y mater yma, er ei fod yn fater sydd wedi cael ei godi sawl gwaith gan y Cyngor, mae hwn yn parhau i fod yn fater sydd yn ein pryderu.

<u>Yr Ardal Ymgeisiol</u>

Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon â'r rheswm a roddwyd gan CNC am gynnwys rhan o Wynedd yn y Parc Cenedlaethol newydd.

Nodwyd fod yr ardal o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr ei nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys yn Y Berwyn ac nid i'w gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid yw'n glir beth sydd wedi newid yn y tirwedd sydd yn golygu ei fod yn addas i'w gynnwys yn y parc cenedlaethol newydd.

Mae'r Cyngor o'r farn y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael yr adroddiad ymgynghori llawn yn hytrach na dogfen crynodeb i gynorthwyo wrth baratoi ymateb I'r Cyfnod Hysbyseb Cyhoeddus a'r Gorchymyn Dynodi.

Rydym hefyd yn dymuno nodi ein siom nad oedd wedi'i wneud yn ddigon clir cyn y Cyfnod Hysbysebu bod angen cyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol i'r hysbysiad, hyn yn ogystal a'r gwrthwynebiad a gyflwynwyd i'r Ymgynghoriad Statudol yn Rhagfyr 2025. Yn bellach, dylid nodi na dderbyniodd y Prif Weithredwr ohebiaeth swyddogol yn nodi'r camau y disgwylir i'r Cyngor eu cymryd i ymateb i'r hysbysiad tan 22 Ionawr, er i'r cyfnod statudol ddod i rym ar 16 Ionawr. Roedd hyn yn siomedig o ystyried fod y Cyngor yn ymgynghorai statudol ac fod y cyfnod ymateb swyddogol yn dod i ben ar 15 Chwefror 2026.

Felly i gloi, mae Cyngor Gwynedd yn parhau i wrthwynebu'r cais i sefydlu Parc Cenedlaethol newydd. Rydym o'r farn fod cyfres o faterion yn parhau heb eglurder digonol o ran materion yn cynnwys yr iaith Gymraeg, materion Cynllunio, Cyllid a Llywodraethu.

Yn gywir

**Cynghorydd. Craig ab Iago**
**Aelod Cabinet Amgylchedd**

Dear Officer

**GLYNDŴR NATIONAL PARK (DESIGNATION) ORDER 2026**

Gwynedd Council opposes the designation order for the new National Park. The Council has raised a number of concerns since the beginning of the journey to create the new National Park (see below), and unfortunately, we have still not received definitive answers to those concerns or questions.

The Council's response to the statutory consultation on the new National Park, and the objections raised during that period, still stand and form the basis for our opposition to the designation order.

Gwynedd Council's objection to the public notice period of the Glyndŵr National Park (Designation) Order 2026 is outlined below for the following reasons:

The Welsh Language

The proposed area to be included in the new National Park in North West Wales includes parts of Gwynedd that are recognised as strongholds of the Welsh language, where it is used on a daily basis. Incorporating these communities into a new Local Planning Authority (LPA) that includes several unitary authorities – many of which have lower levels of Welsh language use – could risk weakening the focus on Welsh language considerations in planning and policy. This could have a negative impact on the status of the language and its everyday use in an area where it is currently thriving.

Although an assessment of the impact on the Welsh language has been carried out, the Council does not consider that the negative impacts can be mitigated in the proposed area which falls within the Gwynedd LPA. No sound evidence has been presented to support the statements made about the Welsh language in the Language Impact Assessment.

Planning

The only assurance we have received is that the new National Park will be a Local Planning Authority.

No decision has been made regarding the type of planning service that will operate within the new National Park, and therefore we cannot be certain that there will be no negative impact on existing planning services.

With regard to the LDP, it is incorrect for NRW to state in its response to the concerns already raised by Gwynedd Council that:

"...considers that the risk to LPAs of abandoning existing or developing LDPs is low, particularly where the area being proposed is already an AONB and therefore unlikely to feature heavily in any LDP"

The guidance received from the Welsh Government's Planning Division is that no LDP should include parts of a different Local Planning Authority. Establishing a new National Park would therefore be contrary to that guidance.

The anticipation of a decision on whether or not to designate the new National Park may have an impact on the timetable for the preparation and delivery of the Gwynedd LDP.

Funding

While we welcome the letter from the Deputy Minister dated 21 August 2025 setting out the financial position of the new National Park and the implications of this, it does not provide certainty.
NRW states that the Welsh Government has given assurances that Local Authorities will not be financially disadvantaged. However, as the Welsh Government is not receiving additional funding for the new National Park, there is no information on where the necessary funding will come from.

Governance

There are no details on how the new National Park will be governed. Clarification is required on whether the Council will be represented or contribute to the Authority in any way.

As no clear guidance has been provided on this issue—despite it being raised multiple times by the Council—it remains a matter of concern.

Candidate Area

Gwynedd Council is not satisfied with the reason given by NRW for including part of Gwynedd in the new National Park.

It has been noted that the area of Gwynedd included within the existing proposed boundary of the Glyndŵr National Park was originally identified by Hobhouse as potential AONB land for inclusion in Berwyn, and not for inclusion in the Eryri National Park. It is not clear what landscape changes have occurred that now make it suitable for inclusion in the new National Park.


The Council considers that it would have been useful to have the full consultation report rather than a summary document to assist in preparing a response to the Public Notice Period and Designation Order.

General Comments.

We also wish to note our disappointment that it was not made sufficiently clear prior to the advertising period that a formal objection to the notice needed to be submitted, in addition to the objection submitted to the statutory consultation in December 2025. Further, it should be noted that the Chief Executive did not receive official correspondence setting out the steps the Council was expected to take to respond to the notice until 22 January, despite the statutory period coming into force on 16 January. This is disappointing given that the Council was a statutory consultee and that the official response period ends on 15 February 2026.

To conclude, Gwynedd Council continues to oppose the application to establish a new National Park. We believe that a number of issues remain unresolved, with insufficient clarity regarding matters including the Welsh language, planning, finance, and governance.

Yours sincerely



**Councillor. Craig ab Iago**
**Cabinet Member for Environment**

**DEDDF PARCAU CENEDLAETHOL A MYNEDIAD I GEFN GWLAD 1949**

**GORCHYMYN(DYNODI) PARC CENEDLAETHOL GLYNDŴR 2026**

Yn unol ag Adrannau 5 a 7 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru drwy hyn yn dynodi yn Barc Cenedlaethol yr holl ardal honno o dir sy'n cynnwys oddeutu 927 cilomedr sgwâr a leolir yn siroedd Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys, Wrecsam ac y dangosir ei therfynau ag ymyl ddu ar y map sydd wedi'i atodi yma ac a ddisgrifir ymhellach yn yr Atodlen i'r gorchymyn hwn.

Gellir cyfeirio at y gorchymyn hwn fel Gorchymyn (Dynodi) Parc Cenedlaethol Glyndŵr 2026.

RHODDWYD o dan Sêl Gyffredin

Corff Adnoddau Naturiol Cymru

ar y 14 diwrnod hwn o fis Ionawr yn 2026

**NATIONAL PARKS AND ACCESS TO COUNTRYSIDE ACT 1949**

**GLYNDŴR NATIONAL PARK (DESIGNATION) ORDER 2026**

In pursuance of Sections 5 and 7 of the National Parks and Access to Countryside Act 1949, the Natural Resources Body for Wales hereby designate as a National Park all that area of land comprising approximately 927 square kilometres situated in the counties of Denbighshire, Flintshire, Gwynedd, Powys, Wrexham and shown bounded by a black line on the map annexed hereto and further described in the Schedule to this order.

This order may be cited as the Glyndŵr National Park (Designation) Order 2026.

GIVEN under the Common Seal of

the Natural Resources Body for Wales

on this 14 day of January 2026

#346

Cadeirydd Corff Adnoddau Naturiol Cymru / Chair of the Natural Resources Body for Wales

Prif Weithredwr Corff Adnoddau Naturiol Cymru / Chief Executive of the Natural Resources Body for Wales